



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2003 Rhif 559 (Cy.79)**

**2003 No. 559 (W.79)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Rheoli'r Gymuned)  
(Cymru) (Diwygio) 2003**

**The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Control Measures)  
(Wales) (Amendment) Order 2003**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae Atodiad XVII i Reoliad y Cyngor 2341/2002 dyddiedig 20 Rhagfyr 2002 yn cyfyngu ar nifer y dyddiau ar y môr y caiff cychod pysgota eu treulio mewn ardaloedd môr penodol. Nid yw'r ardaloedd hynny yn cynnwys unrhyw fôr o fewn awdurdodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan na chynhwysir Môr Iwerddon.

Annex XVII to Council Regulation 2341/2002 of 20th December 2002 limits the number of days at sea that fishing vessels may spend in certain sea areas. These areas do not include any sea within the jurisdiction of the National Assembly for Wales, as the Irish Sea is not included.

Fodd bynnag, mae angen cynnwys manylion yr Atodiad yng Ngorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000, er mwyn i'r pwerau gorfodi a gynhwysir yn y Gorchymyn hwnnw fod ar gael yng Nghymru i orfodi'r Atodiad.

However, it is necessary for details of the Annex to be included in the Sea Fishing (Enforcement of Community Control Measures) (Wales) Order 2000, so that the enforcement powers contained in that Order are available in Wales to enforce the Annex. This Order makes the necessary amendments.

Ni pharatowyd Arfarniad Rheoliadol mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn.

No Regulatory Appraisal has been prepared in relation to this Order.

**2003 Rhif 559 (Cy.79)****2003 No. 559 (W.79)****PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU****SEA FISHERIES,  
WALES****Gorchymyn Pysgota Môr  
(Gorfodi Mesurau Rheoli'r  
Gymuned) (Cymru) (Diwygio)  
2003****The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Control Measures)  
(Wales) (Amendment) Order  
2003***Wedi'i wneud* 6 Mawrth 2003  
*Yn dod i rym* 9 Mawrth 2003*Made* 6th March 2003  
*Coming into force* 9th March 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(a), ac a freiniwyd ynddo bellach(b), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 30(2) of the Fisheries Act 1981(a), and now vested in it(b), hereby makes the following Order:

**Enw a Chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) (Diwygio) 2003 a daw i rym ar 9 Mawrth 2003.

**Title and Commencement**

1. This Order is called The Sea Fishing (Enforcement of Community Control Measures) (Wales) (Amendment) Order 2003 and it comes into force on 9th March 2003.

**Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000****Amendment of The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Control Measures) (Wales) Order  
2000**

2.-(1) Diwygir Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000(c) yn unol â darpariaethau'r erthygl hwn.

2.-(1) The Sea Fishing (Enforcement of Community Control Measures) (Wales) Order 2000(c) is amended in accordance with the provisions of this article.

(2) Mewnosodir y diffiniad canlynol yn y man priodol yn erthygl 2(1):

(2) There is inserted the following definition at the appropriate place in article 2(1):

"Ystyr "Annex XVII" yw Annex XVII i Reoliad y Cyngor 2341/2002 dyddiedig 20 Rhagfyr 2002 yn pennu ar gyfer 2003 y cyfleoedd pysgota a'r amodau cysylltiedig ar gyfer stociau penodol o bysgod a grwpiau o stociau pysgod sydd yn gymwys yn nyfroedd y Gymuned ac, ar gyfer cychod y Gymuned, mewn dyfroedd lle y mae cyfyngu haldiadau yn ofynnol;"

"Annex XVII" means Annex XVII to Council Regulation 2341/2002 of 20th December 2002 fixing for 2003 the fishing opportunities and associated conditions for certain fish stocks and groups of fish stocks, applicable in Community waters and, for Community vessels, in waters where catch limitations are required;"

(a) 1981, p.20.

(a) 1981, c.29.

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" (fel y'u diffinir gan yr adran honno) mewn perthynas ag adran 30 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol a oedd yn gyfrifol am y diwydiant pysgod môr yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru .

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions of "the Ministers" (as defined by that section) in relation to section 30 of the 1981 Act, were, so far as exercisable by the Secretary of State concerned with the sea fish industry in Wales, transferred to the National Assembly for Wales.

(c) O.S. 2000/1075 (Cy.69).

2 (c) S.I. 2000/1075 (W.69).

(3) Ychwanegir, ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad 2847/93" yn erthygl 2(1), y geiriau "ac fel y'i cymhwysir gan baragraff 12 a'i cyfyngir gan baragraff 20 o Atodiad XVII".

(4) Mewnosodir, yng nghlofn 3 o bob cofnod ar gyfer eitemau 2(h), (i), (l) ac (ll) o'r Atodlen, ar ôl y geiriau "15 metr" lle bynnag yr ymddangosant, y geiriau "neu, i'r graddau sy'n gymwys o ganlyniad i baragraff 12 o Atodiad XVII, yn gyfartal i 10 metr neu'n fwy na hynny)".

(3) There is added, at the end of the definition of "Regulation 2847/93" in article 2(1), the words, "and as applied by paragraph 12 and qualified by paragraph 20 of Annex XVII".

(4) There is inserted, in column 3 of each entry opposite items 2(l), (m), (n) and (o) of the Schedule, after the words "15 metres" wherever they appear, the words "(or to the extent applicable in consequence of paragraph 12 of Annex XVII, equal to or greater than 10 metres)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

6 Mawrth 2003

6th March 2003

*D.Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998, p.38.

---

(a) 1998, c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 559 (Cy.79)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Rheoli'r Gymuned)  
(Cymru) (Diwygio) 2003

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 559 (W.79)**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Control Measures)  
(Wales) (Amendment) Order 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.75**

W93/03/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090671-3



9 780110 906713